Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru | For learners, for Wales

Ysgol Caer Elen
Withybush Road
Hwlffordd
Sir Benfro
SA62 4BN

05/02/2025

Annwyl Dafydd Hughes

**Ymweliad Interim:** Ionawr 2025

Diolch i chi am eich cefnogaeth i hwyluso'r ymweliad interim â'r ysgol. Fe wnaethom fwynhau'r cyfle i gyfarfod a chi, eich staff a'ch disgyblion a chlywed mwy am y gwaith gwella y mae'r ysgol wedi ei gyflawni ers yr arolygiad craidd.

Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i:

- Siarad ag uwch arweinwyr a rheolwyr canol am ddatblygiadau a gwaith gwella.
- Siarad â disgyblion a chasglu eu hadborth am yr ysgol.
- Ymweld ag amrywiol wersi i ddisgyblion oedran uwchradd a chynnal teithiau dysgu trwy'r dosbarthiadau disgyblion oedran cynradd.
- Graffu ar lyfrau ac arsylwi gwersi ar y cyd ag uwch arweinwyr.
- Ystyried tystiolaeth o ddogfennaeth ac adroddiadau a gyflwynwyd gan yr ysgol.

Edrychwyd yn benodol ar y gwaith mae'r ysgol yn ei wneud i ymateb i argymhellion yr arolygiad i gryfhau'r ddarpariaeth ABCh ac ehangu'r arlwy o bynciau yng Nghyfnod Allweddol 4.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

## Ffocws yr ymweliad

### Ehangu'r arlwy o gyrsiau yng nghyfnod allweddol 4

Ers yr arolygiad craidd mae'r ysgol wedi:

- Ystyried beth yw anghenion y farchnad lafur leol yn ogystal a diddordebau disgyblion.
- Llwyddo i gynnig mwy o bynciau dewisol galwedigaethol yng Nghyfnod Allweddol 4 gyda chyfuniad o ddarpariaeth yn yr ysgol a choleg addysg bellach lleol. Mae'r cynnig yn cynnwys cyrsiau arlwyo, peirianneg a iechyd a gofal.
- Cofrestru gydag Agored Cymru i fod yn ddarparwr cyrsiau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg.

Efallai hoffai'r ysgol ystyried:

- Sut mae modd cynyddu ymhellach y nifer a math o gyrsiau galwedigaethol sydd ar gael i ddisgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg?

### Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yng Nghyfnod Allweddol 4

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol i'r argymhelliad hwn. Mae wedi:

- Amserlennu gwersi ABCh ar gyfer holl ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4.
- Darparu cynlluniau ABCh cynhwysfawr ar gyfer y gwersi hyn a'u haddasu yn ôl gofynion ar y pryd ac ymateb i farn disgyblion.
- Adnabod staff priodol a'u hyfforddi i gyflwyno'r cynllun.
- Parhau gyda diwrnodau penodol gyda darparwyr allanol i gefnogi'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cael eu gwerthuso gan ddisgyblion sydd wedyn yn arwain at addasiadau yn y gwersi ABCh dilynol.
- Cynnwys gwybodaeth ac arweiniad gyrfaoedd mewn sesiynau rheolaidd.

### Prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

Yn ystod yr ymweliad, roedd cyfle i drafod sut mae'r ysgol wedi adeiladu ar y cryfderau ymysg y prosesau hunan werthuso ers yr arolygiad craidd.

- Mae arweinwyr yn cynnig cyfleoedd bwriadus i'r holl staff ymchwilio a chasglu tystiolaeth o gynnydd disgyblion ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Mae

athrawon yn craffu ar waith disgyblion yn rheolaidd, yn cynnal teithiau dysgu ar y cyd ac yn caffael barn disgyblion a rhieni yn gyson drwy holiaduron.

- Mae arweinwyr yn defnyddio canfyddiadau'r gweithgareddau hunan werthuso yn effeithiol, gan bennu camau gweithredu pwrpasol sy'n ymateb yn brydlon i'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn monitro'r cynnydd yn erbyn y camau gweithredu er mwyn ceisio sicrhau bod disgyblion yn gallu gwneud cynnydd cadarn dros amser.
- Mae barn y disgyblion yn cael sylw ystyrlon wrth bennu blaenoriaethau gwella. Er enghraifft, mae'r disgyblion sydd yn aelodau o'r amryw bwyllgorau 'Llais y disgybl' yn dylanwadu ar elfennau pwysig o'r ddarpariaeth, gan gynnwys y cyrsiau galwedigaethol a gynigir iddynt a chyfrannu eu syniadau at y tasgau dysgu yr hoffant eu cyflawni o fewn eu themâu tymhorol.

Dymunwn yn dda i chi gyda'ch gwaith i'r dyfodol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6685500

Yn gywir



**Catherine Evans**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol